

Neb mor ddall

“Oherwydd y mae bod â’n bryd ar y cnawd yn elyniaeth tuag at Dduw; nid yw hynny, ac ni all fod, yn ddarostyngiad i Gyfraith Duw.” (adn. 7)

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 8:1–17 ac yna myfyrio

Yr ydym am barhau i adlewyrchu ar y ffaith fod gwŷr a gwragedd yn y byd yma, wrth iddynt ddod yn ymwybodol o hiraeth am rywbeth y tu hwnt i’w bywyd, yn hytrach na throi at Dduw a darganfod Duw yn ateb eu hiraeth, yn mynd i gyfeiriadau eraill, mynd i lefydd ac ar hyd ffyrdd sydd yn arwain i unman.

Un ffordd o ddianc yw ffordd osgoi; ffordd arall yw ceisio dwyn yr anesboniadwy o dan reolaeth. Os ydych erioed wedi darllen llyfr C. S. Lewis, *The Silver Chair*, fe fyddwch yn gyfarwydd â’r adran lle mae brenhines y tanddaearolion yn ceisio perswadio plant y byd uwchben mai ei theyrnas ddiflas hi yw’r unig realiti sydd yn bod ac mai breuddwyd yw eu teyrnas hwy. “Nid oes haul,” meddai. “Yr ydych wedi gweld fy lampau a chredu fod yna haul.” Mae’r ffordd y mae’r frenhines yn rhesymu yn ffordd y mae llawer am ei defnyddio heddiw, yn arbennig y rhan hynny o gymdeithas y byddwn ni yn eu galw yn seicolegwyr. Clywais un seicolegydd yn dweud ar y teledu unwaith, “Gellir esbonio’r hiraeth yr ydym yn ei deimlo ynom yn nhermau ein rhywioldeb ac mae’r hiraeth y mae’r Cristion yn dweud ei fod yn hiraeth am nefoedd neu am gartref yn ddim byd mwy na dymuniad i ddychwelyd i groth mam.” Tybed a ydych yn clywed rhesymeg brenhines y tanddaearolion: rydych wedi gweld y lampau ac yna’n credu fod yna haul?

Efallai yng ngoleuni ein testun heddiw na ddylem feio’r anghredinwyr yn ormodol oherwydd eu dallineb. Ac eto, nid oes neb mor ddall â’r rhai nad ydynt am weld.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 59:1–10; Eff. 4:17–19; 1 Ioan 2:11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Eseia yn disgrifio canlyniad dallineb ysbrydol?
2. Sut mae Paul yn disgrifio meddwl y cenedloedd?

Gweddi

Fy Nhad a fy Nuw, mae’n debyg fod pobl yn barod i wneud unrhyw beth, er mwyn ceisio esbonio’r hiraeth yr wyt ti wedi ei roi yng nghalon dyn, yn hytrach na’i dderbyn. Arglywydd, rwy’n gofyn i ti dorri trwy eu rhesymoli fel y gwnest yn fy mywyd i. Yn enw Iesu Grist. Amen.